



COVID-19

Mae COVID-19 yn parhau i fod yn fater iechyd a diogelwch o bwys, a hyd y gallwn ragweld, mae yma i aros. Mae'r NASUWT wedi llunio canllawiau helaeth ynghylch y materion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â COVID-19. Maent ar gael yma: <https://www.nasuw.org.uk/advice/health-safety/coronavirus-guidance.html>.

O safbwynt iechyd a diogelwch, bydd y prif faterion yn ymwneud ag asesiadau risg, a dylai cynrychiolwyr iechyd a diogelwch sicrhau bod y rhain yn cael eu hadolygu a'u rhannu'n rheolaidd gydag aelodau. Yn ogystal ag asesiadau risg, dylai cynrychiolwyr iechyd a diogelwch hefyd sicrhau nad oes unrhyw lacio ar fesurau rheoli o ran cyflwyno profi torfol.

Hapwiriadau Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Mae'r HSE wedi cyhoeddi data o'r hapwiriadau a wnaed mewn ysgolion yn ystod tymor yr Hydref. Cynhaliodd yr HSE 5,000 o hapwiriadau dros y ffôn, a arweiniodd at ymweld ag 20% o safleoedd ysgolion. Roedd angen cyngor llafar ar 10%, ac roedd angen ymyrraeth ffurfiol ar 1%. Os yw hyn yn arwydd o'r system gyfan, byddai hyn yn golygu bod methiannau sylweddol yn systemau a rheolaethau COVID-19 cannoedd o ysgolion.

Mae NASUWT yn siomedig iawn bod yr HSE bellach wedi nodi na fydd yn cynnal hapwiriadau pellach mewn ysgolion, gan ei fod yn credu bod 'safonau da' ar draws y system. Mae'r Undeb yn anghytuno â'r honiad hwn ac yn pryderu y bydd y safonau - heb oruchwyliaeth a gorfodaeth effeithiol - yn fwy na thebyg yn gostwng.

Os yw Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch/Ysgrifenyddion Lleol yn bryderus ynghylch rheolaeth iechyd a diogelwch COVID-19 eu gweithleoedd, fe'u hanogir i riportio'r pryderon hyn i'r HSE gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost union.covidconcerns@hse.gov.uk, gan gynnwys Aelod(au) Gweithredol Cenedlaethol a nasuw@mail.nasuw.org.uk yn y neges. Cofiwch anfon ymlaen unrhyw ymatebion a gewch.

Awyru

Mae'n dod yn fwyfwy amlwg y gall trosglwyddiad drwy aerosol achosi llawer mwy o haint nag a dybiwyd ar ddechrau'r pandemig. Felly mae awyru digonol yn allweddol i leihau'r fecanwaith drosglwyddo hon. Mae'r NASUWT wedi llunio canllawiau ar awyru yn ystod COVID-19 sydd ar gael yn: <https://www.nasuw.org.uk/advice/health-safety/coronavirus-guidance/full-reopening-of-schools/ventilation-and-covid-19.html>.

Mae'r HSE hefyd yn argymhell defnyddio synwryddion carbon deuocsid fel dull o fesur lefelau awyru ystafell. Mae'r rhain yn gymharol rhad i'w prynu gan amrywiaeth o gyflenwyr ac maent yn dangos lefelau awyru mewn amser real.

Mae awyru wedi bod yn bryder i NASUWT wedi blynyddoedd lawer. Nid yn unig mae awyru digonol yn ofyniad cyfreithiol, ond mae'n angenrheidiol ar gyfer dysgu effeithiol, ac mae sawl astudiaeth wedi dangos bod lefelau uchel o garbon deuocsid yn arwain at ostyngiad mewn perfformiad. Yn y byd ôl-COVID, gellid parhau i ddefnyddio synwryddion carbon deuocsid i fonitro lefelau awyru a sicrhau bod y rhain yn cael eu optimeiddio fel bod yr amgylchedd yn gysurus ac yn ddelfrydol ar gyfer dysgu.

Ymosodiadau

Yn dilyn problemau yn Swydd Henffordd a adroddodd NASUWT i HSE, mae'r HSE wedi darparu rhai pwyntiau eglurhaol defnyddiol ynghylch asesu risg a darparu data i gynrychiolwyr iechyd a diogelwch.

Mae'r HSE wedi nodi y dylid darparu data ar ymosodiadau mewn ysgolion i gynrychiolwyr iechyd a diogelwch, a dim ond os yw'r data'n adnabod unigolyn yn uniongyrchol y gellir ei ddal yn ôl. Dylai Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch ofyn am grynodedd o'r data yn unig nad yw'n cynnwys data personol y gellir ei adnabod a'i ddarparu.

O ran asesiadau risg ar ddisgyblion a allai fod yn dreisgar, mae'r HSE wedi nodi y dylai asesiadau risg generig ystyried anghenion cyffredinol y sefydliad i gynnwys risgiau cyffredinol, nodi mesurau rheoli priodol, a nodi anghenion cyfarwyddyd, gwybodaeth a hyfforddiant priodol ar gyfer staff perthnasol, ac ymatebion neu weithredoedd clir i ymddygiadau treisgar ac ymosodol.

Yn ogystal, mae'r HSE wedi nodi y gall hyn ymestyn i asesu'r risg a berir gan unrhyw unigolion lle mae eu hymddygiad neu eu hanes penodol yn awgrymu bod risg ychwanegol y gellir ei ragweld y tu hwnt i'r hyn y gellir ei drin gan y mesurau rheoli generig ehangach.

Mewn sefyllfa lle mae angen asesiadau risg unigol, dylid datblygu'r rhain i ystyried cynlluniau gofal neu gymorth ehangach, cyflyrau meddygol perthnasol, neu ffactorau arwyddocaol eraill a allai ddylanwadu ar dueddiad i dreisio ac arddangos ymddygiad ymosodol. Dylai'r asesiadau hyn nodi a oes unrhyw fesurau penodol pellach i'w hystyried mewn perthynas â'r unigolyn, yn ogystal â'r rheolaethau generig. Byddant hefyd yn ystyried a all unigolion barhau mewn lleoliad prif ffrwd a gallant gynnwys dyfarniadau proffesiynol a chlinigol.

Mae'r HSE hefyd wedi cadarnhau y dylid darparu asesiadau risg a mesurau rheoli generig i gynrychiolwyr iechyd a diogelwch fel mater o drefn. Hefyd, mae angen i'r cyflogwr ddangos bod trefniadau effeithiol ar waith i gynnal asesiadau risg unigol a sicrhau bod unrhyw fesurau rheoli penodol ychwanegol yn cael eu nodi a'u rhannu gyda dim ond unigolion perthnasol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y risgiau'n cael eu rheoli, gan gynnwys trothwy clir a ffactorau a fyddai'n sbarduno'r angen i gynnal asesiad unigol.

Mae'r HSE hefyd yn nodi, lle cynhaliwyd asesiadau risg unigol, na ddylai'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 'ragori ar' reoliadau iechyd a diogelwch. Felly, rhaid rhannu asesiadau risg lle bo hynny'n angenrheidiol er mwyn cyflawni swyddogaethau cynrychiolwyr iechyd a diogelwch yn gywir.

Dyfarniad Luton

Yn ddiweddar, cafodd HSE erlyniad llwyddiannus yn achos Cyngor Bwrdeistref Luton (LBC) lle ymosododd disgybl ar athro gan achosi anafiadau a newidiodd ei fywyd.

Roedd gan y disgybl hanes o drais, ond eto canfu ymchwiliad gan yr HSE fod diffygion sylweddol mewn perthynas â'r mesurau yn yr ysgol. Ni roddwyd ystyriaeth effeithiol i'r risg o anaf neu farwolaeth a berir gan y disgyblion i eraill, ac ni chymerwyd mesurau i leihau'r bygythiad hwnnw i gyn lleied ag sy'n rhesymol ymarferol.

Canfu'r ymchwiliad hefyd nad oedd LBC fel cyflogwr yn sicrhau bod gan yr ysgol bobl â chymhwysedd digonol i reoli iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â rhedeg yr ysgol i sicrhau y rhoddwyd sylw i'r bygythiad. Ni sicraodd y Cyngor chwaith bod aelodau staff yr ysgol yn cael yr hyfforddiant naill ai i unioni'r diffyg hwnnw neu i ymdrin â disgyblion treisgar ac ymosodol mewn ffordd nad oeddent yn eu peryglu gan fethu â monitro pa mor ddigonol oedd mesurau'r ysgol. Felly, methodd y cyngor sylwi ar y diffygion a mynd i'r afael â hwy.

Rhoddodd y barnwr ddirwy o £104,000 i LBC ynghyd â gorchymyn i dalu £60,000 o gostau gan nodi: *"Rwy'n fodlon bod y systemau a oedd ar waith yn annigonol a bod yr awdurdod lleol wedi bod yn esgeulus. Er fy mod yn derbyn na dynnwyd sylw'r awdurdod i unrhyw bryderon, ar yr un pryd, nid yw'n ymddangos bod yr awdurdod lleol wedi gofyn i unrhyw faterion gael eu rhoi ger ei fron ychwaith."*

Nododd yr HSE hefyd *'mewn ysgolion cymunedol a'r awdurdod lleol yw'r cyflogwr, rhaid i'r awdurdod lleol fonitro'r trefniadau sydd gan ei ysgolion ar waith er mwyn rheoli'r risg o drais ac ymddygiad ymosodol.'*

Mae'r achos trychinebus hwn yn tanlinellu mor bwysig yw hi bod bob cyflogwr yn goruchwyllo eu hysgolion/collegau yn ddigonol er mwyn sicrhau er bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, ac mae datgan na godwyd unrhyw bryderon yn esgus annigonol.

Cynghorir cynrychiolwyr iechyd a diogelwch ac ysgrifenyddion lleol/Aelodau Gweithredol Cenedlaethol i sicrhau bod y dyfarniad hwn yn cael ei rannu gydag ysgolion a chyflogwyr er mwyn tynnu sylw at y ffaith bod angen cynnal asesiadau risg effeithiol ar gyfer pob perygl, gan gynnwys disgyblion a allai fod yn dreisgar, ac ar gyfer cyflogwyr er mwyn sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cynnal.



E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwat.org.uk
Gwefan: www.nasuwat.org.uk